

Mewnbynnau

Pecynnau stori misol, wedi'u cynllunio ar gyfer rhannu stori sydd wedi'i chyd-greu yn llawen.

Cymorth ar-lein i ymarferwyr a theluoedd.



Mae Story Explorers yn rhaglen wedi'i chyd-ddylunio, sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cefnogi theluoedd mabwysiadol, maeth a gofal gan berthynas i gysylltu trwy rannu straeon.

Mecanweithiau newid

Newydd-deb:

Mae amrywiaeth y llyfrau a'r adnoddau yn gwahodd chwilfrydedd a darganfyddiadau ar y cyd – gan agor 'trydydd gofod' i blant a gofawyr ddoed at ei gilydd a chysylltu.

Ymarferoldeb:

Mae deunyddiau sy'n hawdd eu defnyddio yn annog defnydd ar unwaith, gan newid ychydig ar arferion bob dydd i wella adegau perthynol.

Ymgysylltu dro ar ôl tro:

Mae danfoniadau misol yn creu disgwyliad a pharhad, felly mae theluoedd yn edrych

ymlaen at yr amser maen nhw'n ei dreulio gyda'i gilydd yn eu defnyddio.

Perchnogaeth:

Mae citiau wedi'u cyfeirio at y plentyn i'w cadw ganddynt, gan gefnogi eu hymdeimlad o annibyniaeth a chyfranogiad gweithredol.

Syml a bob dydd:

Mae adnoddau wedi'u cynllunio i wella ac atgyfnerthu'r hyn y mae theluoedd eisoes yn ei wneud, nid cyflwyno cymhlethdod newydd, gan helpu i wneud y gorau o'r cryfderau presennol.

Canlyniadau tymor byr

Mae theluoedd yn treulio amser gwerth chweil gyda'i gilydd yn defnyddio'r citiau.



Gwell ymgysylltiad:

Mae adegau cynnes, chwareus yn cefnogi cydamseriad rhyngweithiol a chysion rhwng plant a rhieni/gofawyr. Dros amser, mae gofawyr yn cael mewnwleddiad dyfnach i feddyliau, teimladau a bydoedd mewnol plant.

Mwy o sensitifrwydd gan ofalwr:

Mae gweithgareddau deinamig, amrywiol yn cefnogi rhannu stori a chwarae 'dweud a dychwelyd'. Dros amser, mae'r rhyngweithiadau cynnes

a chysion hyn yn darparu cyd-destun strwythuredig ar gyfer ymddygiadau gofal cadarnhaol sy'n gwella hunan-ffeithiolrwydd gofawyr ac yn helpu plant i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi.

Llai o straen:

Mae arferion cyfoethog yn creu profiadau rhagweladwy, pleruser o ddydd i ddydd ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer cyd-reoleiddio, tawelwch a chysur. Dros amser, mae profiadau unigol yn adeiladu ymdeimlad o gysylltiad a sefydlogrwydd.

Canlyniadau tymor hir

Mae theluoedd yn creu perthynas trwy rannu llyfrau a straeon gyda'i gilydd.

Mecanweithiau newid

Cynnal ymlyniad:

Mae darllen ar y cyd yn hyrwyddo cynhesrwydd, ymateboldeb a chysondeb sy'n sylfeini craidd ymlyniad.

Gwneud darllen yn werth chweil:

Mae rhyngweithio cyfoethog, ymatebol a chysylltiadau cryfach yn creu dolen adborth gadarnhaol sy'n annog arferion darllen.

Mecanweithiau newid

Effaith

Mae darllen rheolaidd a pherthynas gref yn cefnogi datblygiad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol plant.



Prif Nodweddion

Mae ein dysgu wrth werthuso a chyd-ddylunio yn tynnu sylw at nifer o nodweddion sy'n allweddol i greu effaith.

Ar gyfer plant

- ◆ **Perchnogaeth ac ymgysylltu:**
Mae pob pecyn yn cyrraedd drwy'r post, wedi'i gyfeirio at y plentyn.
- ◆ **Chwareus a hwyl:**
Mae pob eitem wedi'i ddewis yn ofalus i ysgogi llawenydd, dychymyg a rhyngweithio chwareus.



Ar gyfer plant a'u gofalwyr

- ◆ **Dechreuwyd sgwrs:**
Dewisir llyfrau ac adnoddau i annog deialog ystyrlon a rhyngweithiadau cynnes, o ansawdd.
- ◆ **Profiadau newydd:**
Mae pob pecyn yn unigryw, gan gynnig themâu a deunyddiau newydd i sicrhau llawer o ymgysylltiad.
- ◆ **Cyd-fynd â cam datblygiad:**
Mae'r cynnwys yn cyd-fynd â cham datblygiad y plant, ac wedi'i gynllunio i fod yn ddifyr i oedolion hefyd.



Ar gyfer gofalwyr

- ◆ **Ymgysylltu a chynefino dan arweiniad:**
Cymorth i helpu teuluoedd i ddeall popeth sydd ei angen arnynt i ddechrau arni.
- ◆ **Ymgysylltu parhaus:**
E-byst rheolaidd a gwybodaeth ar-lein i helpu teuluoedd i ymestyn a gwneud y gorau o'u profiadau.
- ◆ **Canolbwyntio ar berthynas:**
Pwyslais ar gryfhau cysylltiadau a hwyluso rhyngweithio o ansawdd trwy brofiadau ar y cyd.

